“Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.”
**(Mathew 5:7)**

Dyma un arall o Wynfydau ein Harglwydd. Yn yr adnod yma mae’r pwyslais yn newid oddi wrth agwedd meddwl dyn ynglŷn â’i hunan gerbron Duw, at ei agwedd tuag at eraill.

Ac i’r graddau y mae person wedi gweld ei dlodi ysbrydol ei hun, ac y mae wedi galaru am hynny a dod yn fwy addfwyn, ac i’r graddau y mae’n newynu ac yn sychedu am fod yn gyfiawn, fe fydd yn trugarhau wrth eraill. Nid mater yw hyn o drugarhau er mwyn dod yn Gristion, ond dangos trugaredd mewn adwaith i’r hyn y mae wedi’i brofi o drugaredd yr Arglwydd.

Mae John Stott yn disgrifio trugaredd fel ‘tosturi tuag at yr anghenus,’ ac fe geisiwn ni feddwl am drugaredd ar bum lefel:

**Trugaredd at enaid**
Mae hyn yn golygu **teimlo tristwch** dros enaid sydd heb adnabod Iesu Grist. Dywedodd Awstin Sant, *‘Os wyf yn wylo dros gorff heb enaid, pa faint mwy y dylwn wylo dros enaid heb Dduw.’* Wrth i Iesu ddod i mewn i Jerwsalem, fe wylodd dros y ddinas oedd yn mynd i’w wrthod, ac felly yn mynd i wrthod Duw. Yn ail, mae hyn yn golygu **perswadio** pobl i edifarhau ac ymddiried yn Iesu Grist fel eu Gwaredwr. Dywed yr apostol Paul ei fod yn **“perswadio dynion”** gan ei fod yn atebol i Dduw am gyflwyno’r Efengyl i eraill fel llysgennad. Yn drydydd, mae’n golygu herio person mewn cariad ynglŷn â’i bechod. Os ydym yn credu bod pechod yn dinistrio bywyd person fe fyddwn yn trugarhau trwy ei rhybuddio a’i herio i edifarhau. Yn bedwerydd, mae’n golygu gweddïo dros eraill. Sawl gwaith mae gweddi daer wedi dwyn ateb ffafriol ymhen amser wrth i berson ddod i brofiad achubol o Iesu Grist!

**Trugaredd at enw da**
Mae’r Testament Newydd yn llawn anogaethau i’r Cristnogion i beidio â difenwi eraill, er iddyn nhw gael eu difenwi ar gyfrif eu ffydd. A’r esiampl fawr o hyn yw Iesu ei hunan: **“Pan fyddai’n cael ei ddifenwi, ni fyddai’n difenwi’n ôl”** (1 Pedr 2:23). Mae’r pechod o ddifenwi yn un difrifol felly, pan mae person yn dilorni neu’n dirmygu person arall. Gwaetha’r modd, mae mor hawdd syrthio i’r pechod yma oherwydd ein balchder a’n cenfigen pan mae rhywun yn cael ei ddyrchafu’n uwch na ni neu’n derbyn clod arbennig.

**Trugaredd at eiddo pobl**
Mae'r person trugarog yn dangos trugaredd at berson sydd mewn dyledion iddo. Mae'r Beibl yn darlunio gras Duw yn yr Efengyl yn dileu dyledion ein pechod trwy i Grist dalu trosom. **"Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni; ac nid yn ôl ein hanwireddau y talodd efe i ni" (**Salm 103:10 BWM). Ac mae dameg y gwas anfaddeugar yn ein hatgoffa bod Duw wedi dileu dyled enfawr ein pechod i ni, ac felly dylem ni ddileu dyledion llai rhai eraill i ni.

**Trugaredd at droseddwyr**
Weithiau, fe fydd rhywun wedi 'pechu' yn ein herbyn ni. Gall hyn fod ar raddfa fach gyda rhywun yn ein siomi'n fawr, neu ar raddfa fwy gyda rhywun yn gwneud niwed i ni neu aelod o'n teulu. Rwyf wedi clywed yn ddiweddar am Gristnogion yn Rwanda yn dysgu trugarhau wrth eraill a fu'n lladd aelodau o'u teulu a'u llwyth. Fe gofiwn weddi Steffan wrth gael ei ferthyru: **"Arglwydd, paid â dal y pechod hwn yn eu herbyn"** (Act. 7:60). Roedd y weddi yna'n adleisio gweddi'r Gwaredwr ar y groes: **"O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud"** (Luc 23:34). Yn 2006 roedd yn hanner can mlynedd ers i bum cenhadwr o'r Unol Daleithiau gael eu merthyru yn Ecwador. Er iddyn nhw golli eu bywyd, fe aeth rhai o'u teuluoedd ymlaen i weithio ac i dystio ymhlith yr Waodani oherwydd eu bod yn trugarhau wrthynt, a daeth llawer yn Gristnogion o ganlyniad.

**Trugaredd at anghenion tymhorol**
Dywed y Gair: **"Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd"** (Salm 41:1 BWM). Mae hyn yn golygu ein rhoi ein hunain yn eu sefyllfa – dangos empathi a cheisio deall eu profiadau. Yn ail, mae'n golygu tosturio, fel y gwnaeth Iesu gyda'r dyrfa cyn iddo borthi'r pedair mil: **"Yr wyf yn tosturio wrth y dyrfa, oherwydd y maent wedi bod gyda mi dridiau erbyn hyn, ac nid oes ganddynt ddim i'w fwyta"**(Math. 15:32). Yn drydydd, dylem roi yn hael, fel y gwnaeth Iesu wrth fwydo'r dyrfa nes bod **"pawb wedi cael digon a chodi lond saith cawell o'r tameidiau oedd dros ben".**